

Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Marine Drive
Sandfields
Port Talbot
SA12 7NN
Ffôn/Phone: 01639 896338



e-bost/e-mail: yggrhosafan@npt.school
Prifathrawes/Head Teacher: Mrs J Griffiths

Annwyl Rieni/ Ofalwyr

Fel y gwyddoch eisioes, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd ysgolion yng Nghymru yn cael ail agor eu drysau ar ddydd Llun, Mehefin 29ain. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i baratoi cymaint ag y gallwn, ar gyfer trosglwyddo'n llwyddiannus. Yn ôl canllawiau'r Sir bydd cyfle i'r disgyblion i fynychu'r ysgol ar **ddau achlysur** cyn diwedd tymor yr haf. Bydd ein darpariaeth gweithgareddau dysgu o bell yn parhau ar lein, lle bydd y tasgau a baratowyd gan yr athrawon, i'w cael ar Hwb, tan ddiwedd y tymor.

Yn amlwg, ein blaenoriaeth ni yw sicrhau diogelwch disgyblion a staff yn yr ysgol. Mae asesiadau risg a chynlluniau trylwyr yn eu lle er mwyn i ni fedru gwneud ein gorau glas i leuhau'r risg o Covid -19.

- Bydd yr Hwb dal yn gweithredu'n ddyddiol ar gyfer rhieni gweithwyr allweddol, ond ar gyfer plant blwyddyn 1- 6 yn unig. Bydd yr Hwb ar agor rhwng 9.00 y.b. a 2.30 y prynhawn. RHAID i chi gysylltu â'r ysgol os ydych am sicrhau lle ar gyfer eich plentyn.

Mae'n bwysig iawn fod pawb yn deall y bydd y diwrnod ysgol yn edrych yn wahanol i'r hyn rydyn ni wedi'i brofi o'r blaen

Dyma grynodedb o'r trefniadau a fydd mewn lle pan y byddwn yn ail ddechrau:

- Bydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion o flwyddyn 1 i 6.
- Bydd dim mwy na 6 o ddisgyblion ym mhob dosbarth ar un diwrnod.
- Bydd mynedfeydd gwahanol i ddisgyblion wrth gyrraedd a gadael yr ysgol.(Manylion pellach i ddilyn yr wythnos nesaf)
- Bydd disgyblion o wahanol ddisbarthiadau yn dechrau a gorffen y diwrnod ysgol ar amseroedd gwahanol. Bydd yr ysgol yn gorffen rhwng 2.15 y.p. a 2.30 y.p.
- Bydd plant o wahanol ddisbarthiadau yn cyrraedd a gadael yr ysgol ar wahanol amseroedd.
- Bydd y disgyblion yn golchi eu dwylo yn rheolaidd yn ystod y dydd.
- Ni chaniateir rhieni i mewn i adeilad yr ysgol. Os oes angen i chi alw yn yr ysgol bydd rhaid i chi ffonio ymlaen llaw.
- Bydd angen i BOB disgybl ddod â chinio ei hun a ffrwyth ar gyfer amser egwyl. Ni fydd cegin yr ysgol yn darparu bwyd. Byddant yn bwyta eu cinio yn yr ystafell ddisbarth felly dim CNAU
- Bydd amseroedd egwyl a chinio yn cael eu gwasgaru.
- Bydd disgwyl i bob disgybl ddod â chas pensiliau i'r ysgol yn cynnwys, pen a phensil, pensilau lliw, craeonau neu binnau ffelt, rwbwr a naddwr.

- Ni ddylai'r plant sy'n cael eu hamddiffyn ar sail feddygol (shielding) neu blant i oedolion sy'n cael eu hamddiffyn ar sail feddygol (h.y. wedi derbyn llythyr gan y llywodraeth) fynychu'r ysgol.
- Bydd pellter cymdeithasol yn cael ei weithredu hyd at gorau ein gallu a'i atgyfnerthu'n rheoliadd drwy'r ysgol. Gwneir hyn mewn modd ystyriol gan roi ystyriaeth i oed y disgyblion.
- Dim ond un plentyn ar y tro fydd yn gallu defnyddio'r tai bach.
- Er taw dim ond un symptom o'r feirws yw tymheredd uchel, byddwn yn cymryd tymheredd os ydy'r plentyn am deimlo yn dost neu yn dangos symptomau.
- Ni fydd angen i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Gallant wisgo dillad cyffyrddus y gellir eu golchi'n hawdd.
- Bydd dim clwb brechwast yn ystod y cyfnod yma i fyny at ddiwedd y tymor.
- Gofynnwn mai dim ond un rhiant sy'n gollwng ac yn casglu eu plentyn/ plant o'r ysgol ac y byddwch yn sicrhau eich bod yn cadw pellter o 2m pob amser.
- Bydd unrhyw blant neu staff sy'n dangos arwyddion o symptomau coronafirws tra yn yr ysgol yn cael eu hynysu a gofynnir iddynt fynd adref ar unwaith.

Byddwn yn eich diweddarau gyda mwy o wybodaeth wrth i ni agosau at y dyddiad agor. Byddwch yn derbyn y dyddiadau y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol yr wythnos nesaf, a bydd RHAID i chi gadw at y dyddiadau yma. Byddwn yn grwpio'r plant cyfenwau tref yr wyddor ac fe fyddwn yn sicrhau fod brodydd a chwiorydd yr dod un dydd

Diolch yn fawr i chi am eich cyd weithrediad parhaus.

Yn gywir,

Mrs Julia Griffiths
Pennaeth